

Adroddiad Arolygu Gwasanaethau *Plant*

yng Cyngor Bwrdeistref Sirol
Castell-nedd Port Talbot



Adroddiad ar Arolygiad y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 4 – 14 Tachwedd 2013.

Cefndir

1. Gwnaed Gwasanaethau i Blant Castell-nedd Port Talbot yn destun protocol pryderon difrifol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd 2012 yn dilyn tri arolygiad rhwng mis Awst 2010 a mis Medi 2012. Nodwyd bod angen gwella'n sylweddol ar drefn yr awdurdod lleol o gyflwyno gwasanaethau diogelu i blant a phobl ifanc. Ers mis Tachwedd 2012 mae AGGCC wedi cynnal ymweliadau monitro bob chwarter i asesu'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i weithredu ei gynllun gwelliant strategol.
2. Cynhaliwyd yr arolygiad ym mis Tachwedd 2013 i sefydlu a oedd digon yn cael ei wneud i wella ansawdd a chysondeb y gwasanaethau i blant a phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot sydd ag angen cymorth neu amddiffyniad.
3. Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i bob aelod o staff Castell-nedd Port Talbot, asiantaethau partner a defnyddwyr gwasanaeth a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.

Methodoleg

4. Cynhaliwyd yr arolygiad gan bum arolygydd a dau reolwr ardal rhanbarthol. Detholwyd chwe deg un ffeil achos plant i'w harchwilio o bob rhan o'r gwasanaethau i blant. Olrheiniwyd deuddeg achos, gan gyfweld pob gweithiwr a fu'n ymwneud â'r achos, yn unigol ac mewn grŵp.
5. Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag aelodau etholedig; uwch swyddogion; staff ac asiantaethau partner, gan gynnwys:

Arweinydd y Cyngor;

Yr aelod arweiniol ar gyfer plant a phobl ifanc;

Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc;

Y panel Aelodau Etholedig;

Y Prif Weithredwr;

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol/ Cadeirydd y Bwrdd

Teulu'n Flaenaf

Y Cyfarwyddwr Addysg

Pennaeth y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc;

Pennaeth Dysgu a Chynhwysiant

Cadeirydd grŵp gorchwyl y 'tîm o amgylch y teulu';

Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth Addysg;

Pennaeth Partneriaeth a Datblygu Cymunedol;
Swyddogion arweiniol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Teulu'n Flaenaf;
Swyddogion Adnoddau Dynol a swyddogion hyfforddi;
Prif gyfreithiwr gofal plant;
Swyddog cwynion a pholisi gyda'r pennaeth Strategaeth Busnes ac
Amddiffyn y Cyhoedd;
Swyddog cyfranogiad a darparwr eiriolaeth;
Swyddogion rheoli perfformiad;
Pum prif swyddog a 7 rheolwr tîm (yn unigol);
Deuddeg gweithiwr cymdeithasol a 7 swyddog adolygu annibynnol (yn unigol);
Gweithiwr iechyd plant sy'n derbyn gofal;
Uwch gynrychiolwyr asiantaethau partner a statudol strategol a gweithredol, gan gynnwys asiantaethau trydydd sector;
Cyfweiliadau grŵp gydag 11 tîm gwaith cymdeithasol yn ychwanegol at dîm y swyddogion adolygu annibynnol / cadeiryddion cynadleddau amddiffyn plant/ pob rheolwr tîm/ dirprwy reolwyr tîm/ aelodau o staff newydd eu penodi a grŵp o weithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer.
Cynhaliwyd arsylwadau o'r tîm Derbyn / Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc a'r Panel Rhianta Corfforaethol. Gwnaed cyflwyniad ar sefyllfa'r awdurdod i'r arolygwyr gan uwch swyddogion a phartneriaid. Derbyniwyd adborth uniongyrchol gan nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'u teuluoedd.

- 6 Ystyriodd yr arolygwyr adroddiad y Cyfarwyddwyr; y cynllun gwelliant strategol, dogfennau strategol a pholisi, gan gynnwys strategaeth y gweithlu, dangosyddion perfformiad ar gyfer 2012/13 a dau chwarter cyntaf 2013/14, gwybodaeth y llwyth achosion, data ar oruchwyliaeth, adroddiadau archwilio a nifer o adroddiadau a phrotocolau pwyllgorau.
- 7 Dosbarthwyd arolwg staff yn electronig i gyfanswm o 269 aelod o staff yn y gwasanaethau i blant a chafwyd 80 ymateb. Roedd 35 o'r rhain gan weithwyr y rheng flaen.

Casgliadau

- 8 Mae'n amlwg bod yr awdurdod lleol yn gwneud gwaith da yn gyffredinol i weithredu'r cynllun gwella strategol a sefydlwyd o ganlyniad i'r ffaith bod gwasanaethau i blant Castell-nedd Port Talbot yn destun protocol pryderon difrifol AGGCC. Fodd bynnag, er gwaetha'r gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud, nid yw hyn wedi arwain hyd yma at welliant cyson mewn perfformiad ac ansawdd o ran cynllunio a chyflwyno gwasanaethau i blant. Buddsoddwyd ymdrech sylweddol ac adnoddau ychwanegol, gan gynnwys cymorth adnoddau dynol gwerthfawr, yn strategaeth y gweithlu ac mae hyn wedi arwain at leihad sylweddol mewn swyddi gwag a salwch tymor hir. Mae'n hollbwysig bod gan yr

awdurdod lleol weithlu sefydlog, cymwys a chadarn i gyflwyno gwasanaethau diogel ac effeithiol i blant a theuluoedd. Cyflawnwyd gweithlu sefydlog yn ddiweddar, ond mae'r sefydlogrwydd hwnnw'n dal yn fregus iawn ac mae angen rhagor o waith i'w gynnal.

- 9 Cyflwynodd yr uwch dîm rheoli a swyddogion corfforaethol asesiad realistig i AGGCC o'r hyn a oedd wedi'i gyflawni a'r meysydd lle'r oedd angen gwelliant o hyd. Gwelwyd tystiolaeth bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau i Blant yn gyrru'r agenda ar gyfer gwella yn ei blaen. Canfu'r arolygwyr fod staff wedi cael eu helpu i gynllunio a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a oedd yn dod i'r amlwg yn sgil casglu data ar reoli perfformiad a'r gweithlu. Fodd bynnag, mae angen datblygu o hyd ar y drefn o ddadansoddi a chyflwyno adroddiadau am rywfaint o'r data.
- 10 Mae aelodau wedi cynyddu eu gwybodaeth a dod i ddeall yn well sut mae'r gwasanaethau i blant yn cael eu rheoli, ac wedi dangos yn glir eu hymrwymiad i gefnogi gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc. Gwelwyd bod rhaglen o gefnogaeth i aelodau wedi bod yn effeithiol, a'u bod yn holi swyddogion yn llawer mwy trylwyr mewn cysylltiad â pherfformiad. Sefydlwyd panel rhianta corfforaethol yn ddiweddar ac mae'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr gofalwyr maeth. Mae'r panel wrthi'n datblygu o hyd, ac yn derbyn gwybodaeth yn hytrach na phennu'r agenda, dylanwadu ar eraill a sbarduno canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal.
- 11 Mae'r newidiadau yn strwythur y timau rheng flaen wedi arwain at ddarparu mynediad mwy cyson at wasanaethau. Fodd bynnag, er bod y tîm derbyn wedi bod yn cael ei ddatblygu ers mis Ionawr 2013 mae trefniadau trosglwyddo rhwng y tîm a'r timau plant cymunedol wedi arwain at rywfaint o oedi a dyblygu gwaith. Yn yr un modd, nid yw'r trefniadau gyda'r tîm plant anabl a'r rhyngwyneb â'r tîm plant sy'n derbyn gofal yn eglur. Dywedodd staff nad oeddent yn sicr ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau o fewn timau, ac roeddent yn teimlo na chyfathrebwyd yn eglur sut roedd y model cyfan yn gweithredu. Mae rheolwyr yn ymwybodol o'r materion hyn ac mae angen rhoi blaenoriaeth i weithredu trefniadau mwy effeithiol i drosglwyddo achosion rhwng y timau. Dylai hyn gynnwys ymgynghori â staff am y llif gwaith a sut y gellir gwella hwn. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n fwy hyderus ac abl o fewn gweithdrefnau amddiffyn Cymru Gyfan, ac mae'n amlwg iddynt gael budd o'r rhaglen hyfforddi ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod y gweithlu'n fwy sefydlog, hyd yma, wedi arwain at asesiadau a threfniadau cynllunio gofal sy'n gyson o ansawdd uchel. Yn gyffredinol, mae prydlondeb wedi gwella'n fawr er na chafodd hyn ei adlewyrchu yn y dangosyddion perfformiad ar gyfer 2012/13 oherwydd y perfformiad gwael yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.
- 12 Er bod gweithwyr yn gyffredinol yn mynegi rhywfaint o obaith y bydd y gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno mewn gwasanaethau i blant yn

arwain at gymorth effeithiol ac amserol i blant, nid oes lefel gyson o hyder y byddai'r cymorth a ddarperir yn cael ei gynnal pe byddai'r protocol pryder difrifol yn cael ei godi. Roedd ysbryd y staff yn gyffredinol wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, rhywbeth a welwyd mewn arolygiadau a chyfweliadau â'r staff. Mae gweithwyr yn amlwg yn ymroddedig i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae staff yn cael eu goruchwyllo'n amlach, er gwaethaf llawer o newid yn y tîm ar lefel rheolwyr. Roedd y rhan fwyaf o staff yn hysbysu bod llwythi gwaith wedi gostwng, a bod prif swyddogion a phennaeth y gwasanaeth yn rhoi cefnogaeth dda. Mae swm a chymhlethdod y gwaith yn dal yn heriol, ac mae proffil y gweithlu o ran nifer y penodiadau newydd a'u diffyg profiad yn cael ei adlewyrchu yn ansawdd y gwaith achos a welwyd. Gwelodd arolygwyr dystiolaeth fod yr uwch dîm rheoli'n cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon am fwlio sy'n cael eu codi gan staff. Fodd bynnag, hysbysodd lleiafrif bychan o staff nad oeddent yn hyderus y byddai'r ymddygiad hwn yn derbyn sylw. Er y byddai staff yn hapus i argymell y gwaith yn eu tîm eu hunain, mae'n ymddangos bod syniad yn parhau ym meddyliau rhai y gallai'r diwylliant blaenorol a etifeddwyd fod yn bodoli o hyd yn yr awdurdod. Gall uwch reolwyr barhau i weithio i sicrhau staff na oddefir bwlio ac arfer gormesol, trwy ddangos yn gyson y byddant yn cymryd camau ac yn ymateb i honiadau o fwlio.

- 13 Hysbysodd partneriaid fod y trefniadau cyfathrebu a gweithio ar y cyd wedi gwella, yn strategol ac yn weithredol. Mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud ar y cyd o hyd, o ran deall trothwyon a rhai meysydd o ymarfer amddiffyn plant. Mae partneriaid a thîm rheoli'r gwasanaethau i blant yn cydnabod yr angen i ddarparu hyfforddiant rhyngasiantaethol.
- 14 Gwnaed gwaith da i gynllunio model newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ataliol cynnar i blant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol bod datblygiad y Bartneriaeth Teulu'n Flaenaf yn llwyddo i leihau'r galw am wasanaethau statudol a chefnogi teuluoedd i ofalu'n ddiogel am eu plant. Mae partneriaid yn cael eu cynnwys yn llawn ac maent yn ymroddedig i gefnogi'r gwaith hwn. Bwriedir gweithredu gwasanaeth peilot mewn un ardal yn gynnar yn 2014. Mae llawer iawn o waith i'w wneud i weithredu'r model, gan gynnwys ail-gomisiynu gwasanaethau cymorth i'r teulu. Er bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i gyfathrebu â staff gwasanaethau i blant, nid oedd unrhyw aelod o'r staff rheng flaen a fawr ddim o'u rheolwyr yn gwybod am y datblygiad pwysig hwn. Mae uwch reolwyr yn ymwybodol o'r mater hwn ac mae ganddynt gynlluniau i roi sylw iddo.

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- 15 Canolbwyntiodd yr arolygiad ar sefydlu'r hyn a oedd wedi cael ei gyflawni i roi ar waith y 22 argymhelliad a wnaed gan AGGCC yn dilyn yr arolygiad diwethaf a 7 argymhelliad ychwanegol a oedd yn deillio o'r tri ymweliad monitro. Daeth nifer o ganfyddiadau allweddol i'r amlwg o'r arolygiad, sef:

Rhoi cyfeiriad

- 16 Cafwyd cefnogaeth wleidyddol gref i'r agenda ar gyfer gwella dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd nifer o aelodau etholedig yn eu swydd yn y cyfnod cyn i'r gwasanaethau i blant gael eu rhoi ar y protocol pryderon difrifol, ac maent wedi mynegi cryn bryder nad oeddent wedi gallu asesu'r sefyllfa'n gywir. Mae ymgynghorydd allanol wedi cynorthwyo'r aelodau i ddatblygu eu gwybodaeth am y materion a arweiniodd at fethiant yn effeithiolrwydd y gwasanaethau i blant, ac i'w deall yn well. Gwelodd arolygwyr dystiolaeth eu bod yn holi swyddogion yn fwy trylwyr mewn cysylltiad â pherfformiad, a bod gwell prosesau ar waith i sicrhau bod ymatebion yn amserol. Mae angen o hyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu fod yn fwy heriol a rhoi mwy o gyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'r rhaglen waith. Mae'r arweinydd yn dal i weithio'n agos gydag aelodau a phrif swyddogion i sicrhau ei fod yn cael yr holl wybodaeth ac y gall ddylanwadu ar yr hyn a gyflawnir pan fo modd. Mae'r panel aelodau a gychwynwyd gan yr arweinydd i fod â rhyngwyneb uniongyrchol â gweithwyr rheng flaen wedi llwyddo i ryw raddau i gefnogi'r neges gorfforaethol bod gwasanaethau i blant yn flaenoriaeth i'r cyngor. Sefydlwyd Panel Rhianta Corfforaethol, ac er mai datblygu y mae o hyd, mae'n cymryd camau trwy ddechrau ystyried sut y gall sbarduno gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.
- 17 Mae'r gwasanaethau i blant wedi cael budd o arian ychwanegol i gynorthwyo i sefydlogi'r gweithlu. Ceir ymrwymiad corfforaethol cadarn i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r gwelliannau angenrheidiol. Ceir cytundeb corfforaethol bod cyllideb y gwasanaethau i blant yn ddiogel er gwaethaf yr hinsawdd economaidd heriol.

Arweinyddiaeth a diwylliant

- 18 Ers yr arolygiad diwethaf cymerwyd camau sylweddol i gryfhau'r tîm rheoli ac mae ganddynt gyfarwyddyd clir i hyrwyddo'r agenda ar gyfer gwella. Penodwyd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ym mis Ebrill 2013 am gyfnod penodol wedi i'r cyfarwyddwr blaenorol ymddeol. Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi adnoddau sylweddol er mwyn adeiladu tîm rheoli â phrofiad addas ar gyfer y gwasanaethau i blant. Bellach mae pennaeth y gwasanaeth yn cael ei gefnogi gan nifer cyflawn o brif swyddogion sydd wedi gweithio'n gyson i wella ymarfer ac ailsefydlu'r defnydd o'r gweithdrefnau amddiffyn plant. Mae'r staff wedi croesawu cymorth y tîm rheoli a'r ffaith ei bod mor hawdd mynd atynt.
- 19 Mae'r cynllun Gwella Strategol wedi cael ei ddatblygu gan ymgynghorydd allanol ac mae'n nodi fframwaith sy'n cael ei ategu gan nifer o gynlluniau gweithredol. Mae bwrdd gweithredol, dan gadeiryddiaeth y prif weithredwr, yn llywodraethu'r rhaglen wella ac mae'n cynnwys uwch swyddogion a chynrychiolwyr o asiantaethau partner. Roedd aelodau etholedig, partneriaid a phob aelod o staff a

gyfwelwyd yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o'r cynllun gwella ac roeddent yn cydnabod yr angen am ei fodolaeth. Mae'r cynlluniau'n amlinellu'r tasgau y mae angen eu cwblhau er mwyn cyflawni'r amcanion o fewn yr amserlenni. Nid yw'n glir bob amser sut y dangosir tystiolaeth o'r canlyniadau gan fod y cynllun yn aml yn nodi mai'r canlyniad yw cwblhau'r dasg, yn hytrach na'r hyn y bwriedir i'r gweithgaredd ei gyflawni. Enghraifft o hyn fyddai cam gweithredu i sefydlu gwasanaeth atgyfeirio ac asesu cychwynnol cynaliadwy. Er y cofnodir bod hyn wedi cael ei gyflawni, mae uwch reolwyr yn glir bod nifer o faterion sylweddol yn effeithio ar effeithiolrwydd y tîm hwn. Mae angen adolygu'r cynlluniau i nodi'r canlyniadau dymunol fel bod modd mesur pa mor effeithiol y gweithredwyd y cynlluniau, ac er mwyn gallu nodi'r angen am unrhyw gamau gweithredu pellach.

20 Gwelwyd tystiolaeth bod y camau a nodwyd yn y cynllun gweithredu wedi cael eu blaenoriaethu'n effeithiol. Mae arafwch y gwelliannau wedi peri rhwystredigaeth i'r tîm rheoli ar adegau, ond mae angen iddynt ganolbwyntio ar gyflawni gwelliannau cynaliadwy. Byddai rhagor o bwyslais ar reoli prosiect a gwell disgyblaeth yn hynny o beth yn helpu ymhellach i gydgyssylltu nifer sylweddol o ffrydiau gwaith. Mae'r arolygwyr wedi arsylwi bod y gefnogaeth ar draws y gyfarwyddiaeth i'r agenda ar gyfer gwella wedi cynyddu'n sylweddol trwy gydol y flwyddyn. Gwelir hyn yn benodol gyda'r effaith gadarnhaol y mae adnoddau dynol wedi ei chael ar weithredu strategaeth y gweithlu. Cymerwyd camau sylweddol i sefydlogi'r gweithlu; rheoli salwch tymor hir a chefnogi rheolwyr i ymdrin â pherfformiad gwael. Roedd pob aelod o staff yn gadarnhaol ynglŷn â buddiannau'r gwaith rhyng-gyfarwyddiaeth hwn, ond roedd rhai pobl yn mynegi pryder nad oedd y trefniadau hyn yn rhai parhaol.

Cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol

Y Gweithlu

21 Sefydlwyd strategaeth y gweithlu ar gyfer y gwasanaethau i blant, hyd at 2016, ac mae'n deillio o'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer pobl. Mae'r cynlluniau sy'n deillio o'r strategaeth yn nodi'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol er mwyn recriwtio, cadw a chefnogi gweithlu sefydlog a fydd yn gymwys i hyrwyddo'r agenda ar gyfer gwella a chyflwyno gwasanaeth diogel ac effeithiol i blant a'u teuluoedd. Mae bwriad i ddatblygu a diweddarau cynlluniau gweithredu wrth i anghenion y gweithlu newid. Byddai'n fuddiol i'r awdurdod lleol roi rhagor o ystyriaeth i'w gynlluniau tymor hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithlu sefydlog. Mae llwythi achosion wedi lleihau i'r rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf a hysbyswyd mai nifer fach o achosion sydd heb eu neilltuo. Er bod mwy o allu'n gyffredinol i gyflwyno gwasanaethau i blant, mae sefydlogrwydd a phroffil y profiad yn amrywio o un tîm i'r llall. Mae uwch reolwyr wedi cydnabod hyn, ac wedi darparu cymorth ychwanegol i rai timau. Nid y trefniadau hyn yn eglur i'r gweithwyr, ac roedd y diffyg eglurder hwn yn cael ei adleisio ar

draws meysydd gwaith eraill, er enghraifft credai'r timau plant cymunedol eu bod yn cael eu gwasgu gan eu bod yn gorfod cymryd gwaith gan y tîm derbyn ond heb fod yn gallu trosglwyddo achosion i dimau eraill. Roedd canfyddiad hefyd bod rhai timau'n derbyn nifer uwch o achosion nag eraill neu fwy o waith amddiffyn plant. Mae angen cyfathrebu'n well ynglŷn â'r materion hyn. Roedd yn ymddangos bod diffyg gweithio cydweithredol pendant rhwng timau, gydag aelodau o'r staff yn uniaethu ag aelodau o'u timau eu hunain yn hytrach nag â'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

22 Canfu arolygwyr fod ysbryd staff yn gyffredinol wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Mae swm y gwaith yn dal yn drwm ond roedd y rhan fwyaf o staff yn obeithiol y byddai hwn yn lleihau wrth i'r trefniadau diwygiedig a'r aelodau staff ychwanegol gael effaith. Roedd rhai aelodau o staff yn anorfod wedi profi llawer mwy o ansefydlogrwydd nag eraill; roedd un tîm wedi cael ei oruchwylio gan 6 rheolwr yn y flwyddyn ddiwethaf. Gallai'r gwahaniaethau hyn esbonio'r anghysondebau mewn arolygon staff. Roeddent yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol ond yn cynnwys nifer fechan o ymatebion negyddol iawn.

23 Mae'r tîm rheoli wedi gwneud ymdrech bendant i ymdrin yn effeithiol â phryderon am fwlio ac arferion gwaith gormesol. Mae gan nifer fach o staff y siaradwyd â nhw syniad y gallai bwlio ddal i fod yn broblem ond nid yn eu tîm eu hunain. Bydd angen i uwch reolwyr barhau i annog staff i ddatgelu eu pryderon a gwneud gwaith dilynol trylwyr ar unrhyw ddigwyddiadau yr hysbysir amdanynt. O ystyried y perfformiad gwael a arweiniodd at roi'r protocol pryderon difrifol ar waith, rhoddir pwyslais cryf ar gyflawni gwelliant mor fuan â phosibl. Mae'n her i reolwyr sicrhau cydbwysedd rhwng yr ymgyrch angenrheidiol hon i wella perfformiad, a'r angen i reoli pwysau gwaith.

24 Buddsoddwyd cryn ymdrech mewn sefydlogi'r gweithlu, o ran recriwtio a rhoi hyfforddiant sefydlu i'r staff sydd newydd eu penodi. Gwnaed gwaith i gefnogi rheolwyr i fynd i'r afael â salwch tymor hir. Mae nifer y swyddi gweithwyr cymdeithasol sy'n wag o fewn y gwasanaethau i blant wedi lleihau o 26 ym mis Mawrth i 10 ym mis Hydref 2013. Fodd bynnag, er eu bod wedi cael eu recriwtio nid oedd pob aelod o staff yn ei swydd ar adeg yr arolygiad. Ceir cydnabyddiaeth bod y gweithlu'n dal yn fregus gan fod 50 penodiad allanol wedi cael eu gwneud yn y deuddeg mis diwethaf. Pan ystyrir penodiadau mewnol a throsiant uchel mewn staff asiantaeth, gwelir y bu lefel sylweddol o newid ac ansefydlogrwydd dros gyfnod o ddeuddeg mis. Roedd mwyafrif y gweithwyr cymdeithasol yn y rhan fwyaf o dimau plant cymunedol wedi cael eu penodi yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, penodwyd 7 o'r rheolwyr tîm yn ystod yr un cyfnod. Mae'r proffil hwn yn amlygu pa mor fregus yw'r gweithlu ac mae angen amser a gallu ar reolwyr i;-

- fagu hyder mewn swyddogaeth reoli;
- asesu'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ymhlith aelodau eu tîm;

- meithrin gwybodaeth hanfodol am yr achosion y mae'r tîm yn gyfrifol amdanynt;
- darparu cymorth ychwanegol i weithwyr sy'n newydd i'r achosion neu i'r maes gwaith.

25 Mae uwch reolwyr yn ymwybodol bod angen rhoi blaenoriaeth yn y flwyddyn i ddod i gadw a chefnogi'r gweithlu hwn sydd newydd ei sefydlu, er mwyn gwneud mwy i wella cysondeb yn ansawdd y gwasanaeth a rheoli'r galw am y gwasanaeth. Mae proffil y gweithlu yn un cymysg gyda'r timau plant sy'n derbyn gofal a Llwybr 16 yn cynnwys gweithwyr mwy profiadol. Mae proffil y timau plant cymunedol yn fwy amrywiol gyda 15 o'r 18 aelod o staff sydd wedi cymhwyso ers dros 5 mlynedd yn weithwyr asiantaeth ar gontractau tymor byr. Mae canran y staff yn yr un timau sydd wedi bod yn gymwysedig am lai na dwy flynedd yn amrywio o 16% i 36%. Mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar lefel ac ystod yr hyfforddiant sy'n ofynnol i fodloni'r anghenion dysgu. Byddai'n fuddiol pe byddai gweithwyr asiantaeth yn cael eu nodi o fewn proffil y gweithlu, o safbwynt trosiant a phrofiad, gan y byddai hyn yn rhoi darlun mwy cywir. Er bod aelodau'r tîm yn croesawu'r ffaith bod y gweithlu'n gyffredinol yn fwy sefydlog, maent yn dal yn bryderus ynglŷn â nifer y newidiadau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu profi oherwydd bod y gweithwyr asiantaeth yn newid mor aml. Roedd hyn yn amlwg hefyd yn y ffeiliau achos.

26 Darparwyd protocol ar reoli achosion heb eu neilltuo ar gyfer yr arolygiad. Dylid ei adolygu i egluro'r weithdrefn ar gyfer 'monitro'r' achosion hyn.

27 Mae gan yr awdurdod drefniadau da i fodloni anghenion gweithwyr cymdeithasol yn eu blwyddyn gyntaf o ymarfer. Roedd gweithwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth y maent yn ei dderbyn, gan gynnwys hyfforddiant sefydlu cychwynnol a hyfforddiant wedi hynny o ansawdd da, a llwythi achosion wedi'u diogelu. Teimlwyd nad oedd y cymorth mentora a oedd yn cael ei ddarparu o fudd ond gwelwyd enghreifftiau o arfer da gyda 'threfniadau cyfeillio' anffurfiol yn un o'r timau. Roedd hyfforddiant sefydlu hefyd ar waith ar gyfer gweithwyr mwy profiadol a oedd newydd eu recriwtio, ond nid oedd y rhain mor gyson ac roedd gweithwyr asiantaeth yn fwy dibynnol ar eu rheolwyr eu hunain i ddarparu'r gefnogaeth hon. Mae'n bwysig bod gweithwyr asiantaeth yn cael eu hysbysu am bolisïau a phrosesau er mwyn i ymarfer fod yn fwy cyson. Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno llawlyfr ymarfer a gweithdrefnau ar-lein i staff, a bydd yn eu helpu i gael gafael ar ganllawiau'n rhwydd. Byddai pecyn sefydlu hefyd yn helpu i sicrhau fframwaith mwy cyson ac yn helpu rheolwyr i weithio drwy ddisgwyliadau'r cyfnod prawf.

28 Mae gan yr awdurdod raglen hyfforddi gynhwysfawr wedi'i sefydlu ar gyfer 2013/14. Roedd rhai gweithwyr yn bryderus nad oedd modd iddynt ddilyn yr holl hyfforddiant heb fynd ar ei hôl hi gyda'u gwaith achos. Mae'r tîm rheoli wedi gorfod cydbwysu'r her hon gyda'r angen i

sicrhau bod gweithwyr i gyd yn cael eu hyfforddi'n gyson i allu cwblhau eu gwaith i safon dda. Penderfynwyd mynd yn ôl at yr hanfodion ar gyfer hyfforddiant ym maes amddiffyn plant, yn dilyn argymhellion yr arolygiad diwethaf, ac roedd yn amlwg bod gweithwyr cymdeithasol yn deall y gweithdrefnau amddiffyn plant yn well ac yn gallu cwblhau'r broses yn fwy effeithiol gyda chymorth templedi a oedd newydd eu cyflwyno. O ystyried bod gweithwyr heb gymhwysu'n cynnal llwythi achos, mae'n hanfodol eu bod hwythau hefyd yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant sy'n berthnasol i'w swyddogaeth. Bydd angen amser a chymorth ar weithwyr cymdeithasol er mwyn gwella ansawdd ymarfer amddiffyn plant ymhellach. Gwelwyd ymateb llai cyson i hyfforddiant ym maes cynllunio gofal, a dywedodd rhai aelodau o staff y ceir dryswch ynghylch cwblhau'r broses a chofnodi cynlluniau gofal. Mae rheolwyr yn ymwybodol bod angen rhoi blaenoriaeth o hyd i amddiffyn plant a chynllunio gofal. Mae'r awdurdod wedi darparu cyllid i alluogi nifer o aelodau o staff i gwblhau cwrs datblygu rheolaeth, ond un yn unig o'r rheolwyr tîm a benodwyd yn ddiweddar a gafodd eu cynnwys. Er bod y rheolwyr tîm yn mynychu cyfarfod uwch reolwyr estynedig a hefyd yn cwrdd i fonitro perfformiad, byddent yn cael budd o'r cyfle i rannu gwersi a sicrhau ymarfer mwy cyson ar draws y gwasanaeth. Mae angen darparu mwy o hyfforddiant amlasiantaethol yn arbennig ynghylch asesu a gweithio mewn grŵp craidd.

- 29 Mae'r prif swyddogion wedi gorfod goruchwyllo achosion oherwydd y diffyg sefydlogrwydd ar lefel rheolwyr tîm. Mae hyn wedi effeithio ar y gallu i reoli'r newidiadau yn y model cyflwyno gwasanaethau. Er bod y cyfathrebu wedi gwella a bod strategaeth ar waith, mae'r staff yn dal yn ansicr ynghylch trefniadau ar gyfer rheoli llif gwaith ac nid oes ganddynt bersbectif ar sut y mae'r gwasanaeth yn cael ei lunio. Fodd bynnag, er gwaethaf newidiadau aml ar lefel rheolwyr tîm yn y pum asesiad, mae canran y sesiynau goruchwyllo a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni a ragnodir wedi cynyddu i 88% ar gyfer ail chwarter 2013/14. Dywedodd mwyafrif y staff fod goruchwyliaeth yn fwy prydlon a mwy cyson. Cofnodwyd nifer fechan o sylwadau negyddol ynghylch goruchwyliaeth yn yr arolwg staff. Cynhaliwyd archwiliad o ansawdd goruchwyliaeth gan ymgynghorydd allanol, ac mae'n amlygu nifer o agweddau cadarnhaol ar ymarfer. Gwnaed nifer o argymhellion i wella sicrwydd ansawdd ym maes goruchwyliaeth ac mae angen i'r rhain gael eu hymwreiddio er mwyn sicrhau y cyflawnir gwelliant parhaus. Mae'r drefn o gofnodi nodiadau goruchwyliaeth a phenderfyniadau ar ffeil wedi gwella ond cafwyd ei bod yn anghyson. Mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar wella templedi ar gyfer y broses amddiffyn plant a chynllunio. Gwelwyd gwelliannau yn y drefn o gofnodi trafodaethau strategaeth ac ymchwiliadau amddiffyn plant. Cyflwynwyd templedi diwygiedig ar gyfer cynlluniau gofal, cynadleddau achos a gwaith grŵp craidd yn ddiweddar, ond nid ydynt wedi cael amser i ddod ag unrhyw welliant cyson yn y modd y cofnodir y prosesau hyn. Er bod rheolwyr tîm yn rhoi sêl bendith i asesiadau, nid oedd yn amlwg eu bod yn cadw golwg cyffredinol da ar waith achos, a gellir esbonio hynny'n rhannol gan nifer y newidiadau ar lefel rheolwyr tîm. Mae uwch reolwyr yn

ceisio mynd i'r afael â hyn trwy roi cyfarwyddiadau i reolwyr tîm oruchwylio pob aelod o staff cymwysedig yn eu tîm. Mae angen ailystyried y dull hwn, o ystyried nifer uchel yr achosion mewn rhai timau a'r ffaith nad yw swyddogaethau a chyfrifoldebau dirprwy reolwyr tîm a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol yn eglur. Mae angen cael trefniadau rheoli llinell eglur ar gyfer pob aelod o staff i sicrhau y caiff yr holl waith achos ei oruchwylio'n effeithiol a chyson.

Rheoli perfformiad

30 Bu gwelliant sylweddol yn y drefn o reoli gwybodaeth perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd systemau i gofnodi a chasglu data wedi cael eu dirwyn i ben dan 'y model systemau' felly roedd angen llawer iawn o waith i ailsefydlu'r cyfleuster hwn. Mae pob gweithiwr yn ymwybodol o flaenoriaethau perfformiad lleol ac mae dangosfwrdd data'n cael ei ddsbarthu'n wythnosol. Mae ofn cychwynnol y staff y byddai perfformiad unigolion yn cael ei ddatgelu wedi lleihau, gan mai rheolwyr tîm yn unig bellach sy'n derbyn data ar gyfer eu tîm. Hysbysir yr holl dîm rheoli, y bwrdd gwelliant ac aelodau etholedig yn systematig am berfformiad. Nid yw'r data'n cael ei ddadansoddi'n ddigon da i allu holi'r rhesymau am unrhyw newidiadau mewn perfformiad. Enghraifft o hyn fyddai'r newid yn y dull o gofnodi cysylltiadau â'r gwasanaethau i blant. Ers mis Ebrill 2013 nid yw nifer yr atgyfeiriadau a ddyfynnir ar y raddfa ailatgyfeiriadau ond yn ymwneud â'r cysylltiadau hynny a dderbynnir fel atgyfeiriadau ac a gofnodir felly. Gan fod pob cyswllt cyn Ebrill wedi cael eu cofnodi fel atgyfeiriadau, effaith y newid hwn fydd gostyngiad anorfod yn nifer yr ailatgyfeiriadau. Gellir ystyried hwn fel dangosydd lleol gan fod y datganiadau cenedlaethol yn dal i ddilyn y trefniadau blaenorol. Dylid egluro hyn er mwyn helpu i ddeall y materion dan sylw yn well. Gan fod y rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad yn mesur prydlondeb, mae hefyd yn hollbwysig bod y rhai sy'n nodi newidiadau mewn galw a maint y llif gwaith yn gyson ac yn cael eu deall gan y rhai sy'n craffu ar berfformiad.

Sicrhau ansawdd

31 Mae fframwaith sicrhau ansawdd cynhwysfawr a manwl wedi cael ei ddatblygu ond nid yw wedi cael ei gyflwyno. Mae angen cynllun gweithredu i gynorthwyo i ymwreiddio'r gwaith hwn mewn ymarfer. Mae'r meysydd allweddol ar gyfer gwella wedi cael eu nodi ac mae angen i broses sicrhau ansawdd gael ei rhoi ar waith yn systematig. Sefydlwyd cynlluniau i ddatblygu swyddogaeth y tîm adolygu annibynnol, lle y penodwyd staff ychwanegol. Ychydig o dystiolaeth a welwyd ar y ffeiliau a adolygwyd bod proses sicrhau ansawdd yn cael ei chynnal ar gyfer cynlluniau plant. Roedd nifer o archwiliadau allanol o ffeiliau achos wedi cael eu cwblhau ac mae'r canlyniadau a'r problemau'n cyfateb ar y cyfan i'r rhai a ganfuwyd gan arolygwyr. Nid yw rhai o'r adroddiadau trosolwg yn eglur ynghylch dyfarniadau a allai fod wedi deillio o offerynnau archwilio, nad oedd yr arolygwyr wedi'u derbyn. Yn amlwg, mae adnoddau allanol wedi cael eu diogelu i gynnal

gwaith archwilio, gan fod cyfyngiadau ar y tîm rheoli sydd newydd gael ei recriwtio oherwydd galwadau sy'n cystadlu. Nid oedd yn ymddangos bod y gwersi o'r archwiliadau wedi cael eu defnyddio'n effeithiol i wella ymarfer. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu hysbysu drwy e-bost am unrhyw ddiffygion pe byddai angen gweithredu ar unwaith. Fodd bynnag, nid dyma oedd canfyddiad staff. Roeddent yn credu bod archwiliadau'n cael eu cynnal ar gyfer yr arolygiad yn hytrach nag i wella ymarfer. Bydd angen adborth cyson ac adeiladol ar weithwyr cymdeithasol ar ansawdd eu gwaith, yn ogystal ag amser i roi'r gwersi a ddysgwyd yn ddiweddar ar waith.

32 Cafodd protocol Cyfranogiad, Ymgysylltu ac Eiriolaeth ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r trydydd sector a'i ddrafftio ym mis Medi. Ceir cynlluniau i weithredu'r protocol ar draws y gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau i blant. Nid yw'n glir sut y bydd gweithwyr cymdeithasol yn cymryd rhan yn y gwaith hwn, ond roedd arwyddion bod llais plant sy'n derbyn gofal yn cael ei gynrychioli'n gryfach. Mae'n ymddangos bod y protocol yn gwrthddweud ei hun yn y rhan sy'n amlinellu hawl plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal i gael eiriolwr yn ei adolygiadau. Mae'r awdurdod yn ail-gomisiynu ei wasanaeth eiriolaeth gan nad yw'r cynnig i sefydlu gwasanaeth rhanbarthol yn ymarferol ar hyn o bryd. Dylai'r protocol gael ei adolygu i sicrhau nad yw'n codi disgwyliadau ar gyfer darpariaeth ychwanegol. Mae'r galw presennol am eiriolaeth yn uchel ac mae'n destun pryder bod rhestr aros o ddau fis am y gwasanaeth ar adeg yr arolygiad. Mae uned hawliau plant uchel ei pharch wedi'i sefydlu yng Nghastell-nedd Port Talbot ond nid oedd yn amlwg a ddefnyddir y gwasanaeth hwn gan y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau i blant.

Llunio gwasanaethau

33 Roedd 462 o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal gan Gastell-nedd Port Talbot ar ddiwedd mis Medi 2013. Y ffigur ym mis Ebrill oedd 517, sy'n dangos mai'r tueddiad yw lleihad graddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Cwblhawyd proffil o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal, ac mae gwaith wedi dechrau ar adolygu'r trefniadau sefydlogrwydd. Mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda i hybu mabwysiadu fel y prif ddewis sefydlogrwydd ar gyfer plant dan bum mlwydd oed sy'n dod yn rhan o'r system ofal. Roedd 56 o blant un ai wedi eu mabwysiadu neu wedi eu lleoli i gael eu mabwysiadu yn y cyfnod a adolygwyd. Mae'r proffil yn amlygu'r angen i gynllunio ar gyfer mwy o ddarpariaeth i'r rhai sy'n gadael gofal, gan fod 94 person ifanc rhwng 15 a 17 oed. Mae gwaith ar y gweill i ystyried dewisiadau eraill i blant hŷn ac i leihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir. Dylid adolygu cynlluniau ar gyfer sefydlogrwydd nifer cymharol uchel o blant sydd wedi'u lleoli gyda rhieni, yn arbennig yn yr ystod oedran 6 i 14. Byddai'r proffil yn fwy defnyddiol pe byddai'n cynnwys faint o amser yr oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi bod mewn gofal, a pha un a oeddent y tu allan i'r sir.

34 Cafwyd gwelliannau yn ansawdd y cymorth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ers sefydlu'r tîm plant sy'n derbyn gofal. Mae'r tîm hwn yn cefnogi 187 o blant a phobl ifanc. Mae 182 o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi gan y timau plant cymunedol a dim ond 58 o'r rhain sy'n destun achosion gofal. Nid yw statws yr achosion hyn na'r trefniadau iddynt drosglwyddo i'r tîm plant sy'n derbyn gofal yn glir i'r staff. Rhaid i weithwyr cymdeithasol roi blaenoriaeth i waith amddiffyn plant a gwaith llys, a gallai hyn arwain at ddiffyg gallu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y plant hynny yn eu llwyth achosion sy'n derbyn gofal. Credai staff fod embargo ar drosglwyddo achosion i'r tîm plant sy'n derbyn gofal. Mae'n bwysig bod yr achosion hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu symud yn eu blaenau ac na adewir i bethau lithro. Mae ansawdd y gwaith cynllunio gofal yn dal yn faes y mae angen ei ddatblygu a'i wella'n sylweddol. Mae adnoddau ychwanegol wedi cael eu neilltuo i'r tîm maethu ac mae'r anghenion presennol yn eglur, gyda phwyslais cryf ar recriwtio gofalwyr. Mae'r awdurdod wedi nodi mai un maes i'w ddatblygu yw'r angen i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn y broses o lunio'r gwasanaethau.

Cynllunio a Phartneriaeth

35 Hysbysodd pob partner fod y berthynas waith gyda'r gwasanaethau i blant wedi gwella, yn strategol ac yn weithredol. Roedd ymrwymiad clir gan asiantaethau partner i gefnogi'r agenda ar gyfer gwella, a gwelwyd hynny'n arwain at weithredu cadarnhaol yn ystod y flwyddyn. Ceir nifer o feysydd y mae angen eu datblygu o hyd, ac mae'r uwch reolwyr yn cydnabod hynny.

36 Nid oedd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ataliol cynnar yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cyd-fynd yn effeithiol ag anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod ag angen gwasanaethau statudol. Cwblhawyd adolygiad o'r trefniadau ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau 'rhoi'r teulu'n gyntaf' yn gynnar yn 2013. O ganlyniad i'r adolygiad hwn ac asesiad o anghenion yn y fwrdeistref sirol, penderfynwyd diwygio'r model yn llwyr ar gyfer cyflwyno'r agwedd hanfodol hon ar gymorth i blant a theuluoedd. Mae cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol wedi arwain ar y datblygiad hwn ac mae wedi sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Teulu'n Flaenaf. Mae'n seiliedig ar y model Barnet ac mae pob asiantaeth partner wedi bod yn ymwneud â chefnogi'r prosiect uchelgeisiol hwn. Mae'r fframwaith wedi cael ei sefydlu ac mae'n cynnwys nifer fawr o ffrydiau gwaith. Cafwyd pryderon cychwynnol am y gallu'n lleol i weithredu'r model hwn, a pha un a oedd yn addas ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Mae'r amheumon hyn wedi cael eu lliniaru rhywfaint gan y canlynol:

- a) recriwtio ymgynghorydd i gefnogi'r gwaith cynllunio a gweithredu;
- b) secondio partner o'r adran iechyd;
- c) bodlonrwydd asiantaethau partner i arwain rhai o'r ffrydiau gwaith;
- ch) yr hyblygrwydd i addasu'r model wrth i gynllunio fynd yn ei flaen.

37 Mae'r model yn seiliedig ar brosiectau sy'n bodoli eisoes yn Lloegr ac sydd wedi bod yn llwyddiannus. Mae nifer o heriau yn wynebu'r bwrdd partneriaeth, er enghraifft mynd i'r afael â maint yr angen yn yr ardal a llwyddo i ymgysylltu â'r teuluoedd iawn. Mae risgiau posibl ynghlwm wrth y bwriad i ddadgomisiynu'r gwasanaethau ataliol presennol. Bydd angen cynllunio hyn yn ofalus fel nad yw cymorth i deuluoedd yn cael ei beryglu wrth drawsnewid i'r model newydd. Nid yw cylch gwaith rhai ffrydiau gwaith yn eglur i rai rheolwyr, er enghraifft ynghylch 'cysoni trothwyon'. Mae'n ymddangos bod y dryswch yn bodoli mewn cysylltiad â hyn a'r gwaith sydd wedi cael ei nodi i hybu gwell dealltwriaeth gyda phartneriaid mewn cysylltiad â'r trothwy ar gyfer gwasanaethau i blant. Mae angen cael cyfathrebu clir a synergedd rhwng y ddwy ffrwd waith fel bod y bobl sy'n atgyfeirio teuluoedd i dderbyn cymorth yn bendant ynghylch pa wasanaeth y maent am ei ddefnyddio. Mae'n annhebygol, yn y tymor byr, y cyflawnir y nod o gefnogi mwy o blant i aros gyda'u teuluoedd ac felly leihau'r boblogaeth sy'n derbyn gofal. Bydd yn hollbwysig felly bod mesurau priodol yn cael eu nodi a'u monitro'n systematig i sicrhau bod gwell canlyniadau'n cael eu cyflawni.

Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir

38 Canfu arolygwyr fod anghysondeb sylweddol yn ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Gwelwyd hyn ar draws y meysydd a adolygydd yn yr arolygiad. Parheir i ddibynnu ar berfformiad unigolion, yn hytrach nag ar wasanaeth sy'n bodloni safonau ansawdd y cytunwyd arnynt. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y wybodaeth a dderbyniwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth. Roeddent wedi profi cymorth amrywiol iawn, o ymarfer gwael iawn a oedd wedi arwain at gamau disgyblu yn erbyn gweithiwr cymdeithasol, i ymarfer a chanlyniadau da iawn i berson ifanc a oedd yn derbyn gofal. Roedd yn amlwg bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn dweud bod pethau wedi gwella'n ddiweddar, er bod profiadau'r gorffennol yn effeithio ar hyder rhai defnyddwyr gwasanaeth yn y gwasanaethau i blant. Fe fydd yn cymryd amser a rhagor o waith caled i wella cysondeb a sefydlu safonau ansawdd. Ceir cydnabyddiaeth bod angen rhoi llawer o sylw o hyd i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses gynllunio. Ymgysylltir yn well â phlant a phobl ifanc, ond eto mae'r broses yn anghyson ac yn anaml y gwelwyd ei bod wedi ei chofnodi mewn cynlluniau ac adolygiadau.

39 Mae gan swyddogion adolygu annibynnol ran hanfodol i'w chwarae o ran cefnogi plant a theuluoedd i gael dweud eu dweud. Nid yw'n ymddangos bod y staff gwaith cymdeithasol a thîm y swyddogion adolygu annibynnol yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ei gilydd, na sut y gallant weithio gyda'i gilydd yn hyn o beth. Byddai hyfforddiant ar y cyd a gwaith i ddatblygu'r broses sicrhau ansawdd yn helpu i roi mwy o gyfle i gael adborth er mwyn cael mwy o gysondeb yn ansawdd y gwasanaethau.

- 40 Mae gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr yn cael eu cefnogi'n dda gan y gwasanaethau cyfreithiol. Mae ymarferwyr yn ystyried bod cymorthfeydd cyfreithiol, gan gynnwys y broses gofnodi a gwblheir i baratoi ar gyfer cyfarfodydd, yn ddefnyddiol iawn. Mae rheolwyr tîm yn treulio amser sylweddol yn mynychu'r llys i gefnogi'r gweithwyr cymdeithasol yn eu timau. Dylid adolygu'r arfer hwn wrth i weithwyr cymdeithasol fagu profiad a hyder mewn gwaith llys.
- 41 Nid oes gan yr awdurdod brotocol penodol ar gyfer cynnal ymweliadau statudol pan fydd gweithwyr cymdeithasol yn absennol, ond caiff hyn ei reoli o fewn pob tîm. Mae angen rhoi canllawiau i reolwyr er mwyn cael dull gwaith cyson i sicrhau bod ymweliadau statudol yn cael eu cwblhau i safon dda, a rhag i'r gweithiwr gael ei newid ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn amlach nag sydd raid.

Cwynion

- 42 Bu anawsterau o ran rheoli cwynion i'r gwasanaethau i blant. Mae'r rhain yn ymwneud â gostyngiad yn nifer y staff yn yr uned gwynion, a chynnydd yn lefel a dwyster y cwynion. Mae AGGCC a Chyngor Gofal Cymru hefyd wedi derbyn cwynion yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a staff. Roedd y data a ddarparwyd ar gyfer yr arolygiad yn gyfyngedig ac nid yw'n ymddangos bod natur y cwynion wedi cael ei ddadansoddi o gwbl. Mae'n hollbwysig bod yr awdurdod lleol yn dadansoddi natur y cwynion a chanfyddiadau'r ymchwiliadau dilynol, er mwyn nodi a llywio gwelliannau i'r gwasanaethau. Nid oedd yn amlwg bod cwynion yn cael eu hystyried yn rhan o fframwaith sicrhau ansawdd na bod canlyniadau cwynion yn cael eu defnyddio fel cyfle ar gyfer dysgu a gwella ymarfer. Mae uwch reolwyr yn ymwybodol bod hwn yn faes sydd angen mwy o sylw.

Asesu a rheoli gofal

- 43 Mae'r trefniadau diwygiedig ar gyfer mynediad at wasanaethau i blant yn dangos arwyddion pendant o well cysondeb. Caiff pob atgyfeiriad ei reoli gan y tîm derbyn sy'n cynnal y rhan fwyaf o asesiadau cychwynnol. Yr unig eithriadau i hyn yw asesiadau a gynhelir gan y tîm plant ag anabledd a'r achosion hynny a ailatgyfeirir o fewn 3 mis sy'n mynd yn ôl at y timau plant cymunedol ardal. Mae'r penderfyniadau ynglŷn ag atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud yn fwy prydlon dros y flwyddyn ddiwethaf, a gwelwyd gwelliant sylweddol yn nifer yr asesiadau cychwynnol a gwblheir o fewn 7 niwrnod. Mae'r galw am wasanaethau'n dal yn uchel, ond nid oedd y data a ddarparwyd yn cyflwyno'r galw mewn modd cyson. I ddibenion blaenoriaethau perfformiad lleol, mae'n ymddangos nad yw'r awdurdod ond yn cofnodi cysylltiadau sydd wedi cael eu sgrinio ac sydd wedi mynd ymlaen i fod yn atgyfeiriad. Hysbysir mai 446 yw'r nifer yn ail chwarter 2013/14. Fodd bynnag, mae'r data perfformiad cenedlaethol a ddarparwyd yn nodi mai 838 yw nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn yr un cyfnod. Nid yw hwn yn arwydd o ostyngiad yn y galw gan fod 58 yn fwy o

asesiadau cychwynnol wedi'u cwblhau yn yr un cyfnod. Dylai fod synergedd rhwng y ddwy system. Nid yw'r dadansoddiad risg yn cael ei gynnal yn gyson ac mae'n ymddangos bod gweithwyr cymdeithasol yn ystyried digwyddiadau ar wahân yn hytrach na defnyddio cronolegau i lywio'u proses o wneud penderfyniadau. Ceir cynllun i fonitro'r drefn o wneud penderfyniadau ar achosion nad ydynt yn mynd ymlaen i asesiad cychwynnol, er mwyn cryfhau sicrwydd ansawdd ar lefelau trothwy. Dylid rhoi blaenoriaeth i hyn fel y gellir monitro ailatgyfeiriadau yn fwy effeithiol.

Gwneud penderfyniad ar atgyfeiriadau o fewn 24 awr

- Chwarter 1af 2012/13 77%
- Chwarter 1af 2013/14 96%

Mae prydlondeb wedi aros yn sefydlog am yr ail chwarter

Asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod:

- Chwarter 1af 2012/13 24%
- Chwarter 1af 2013/14 72%

Mae prydlondeb wedi gwella ychydig yn yr ail chwarter.

44 Roedd ansawdd yr asesiadau cychwynnol yn dangos arwyddion o welliant diweddar. Roedd nifer o'r rhai a adolygwyd yn fanwl ac roedd canlyniadau clir wedi eu cofnodi. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson:-

- Asesiadau bwrdd gwaith yn unig oedd rhai ohonynt, ac ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau â chartrefi;
- Roedd ansawdd y wybodaeth a gofnodwyd yn amrywiol ac roedd y canlyniad hwn yn cael ei adleisio yn yr archwiliadau allanol a gwblhawyd;
- Nid oedd yn bosibl dweud ai asiantaethau partner ynteu rhieni oedd wedi darparu gwybodaeth;
- Nid oedd gweithwyr bob amser yn glir pam mae asesiad yn cael ei gynnal;
- Ychydig o ddadansoddi neu asesu risg oedd wedi'i gofnodi;
- Ychydig o dystiolaeth bod plant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys yn y broses;
- Roedd diffyg trefniadau trosglwyddo yn arwain at oedi mewn rhai achosion cyn dechrau asesiadau craidd.

45 Nid oedd y tîm derbyn ond wedi bod yn gweithredu'n llawn am 4 mis ar adeg yr arolygiad ac nid oes ganddo ganran uchel o weithwyr profiadol. Mae angen amser ychwanegol i staff roi hyfforddiant diweddar ar waith ac adeiladu cysylltiadau ag asiantaethau partner a thimau eraill o fewn y gwasanaethau i blant.

- 46 Mae prydlondeb asesiadau craidd yn anghyson ond mae wedi gwella'n sylweddol, o 29% yn chwarter cyntaf y llynedd i 72% eleni. Mae'r meysydd y mae angen gwella eu hansawdd yn adlewyrchu'r rhai a welwyd gyda'r asesiadau cychwynnol. Eto gwelodd arolygwyr rai enghreifftiau o waith da. Roedd ansawdd yr asesiadau craidd a baratowyd ar gyfer y llys yn sylweddol uwch. Nid oedd yn ymddangos bod asesiadau yn llywio'r gwaith cynllunio gofal, gan nad oedd hwnnw'n dangos llawer o arwydd o welliant.
- 47 Mae nifer yr achosion plant mewn angen yn dal yn uchel, gyda 1152 achos agored ym mis Hydref 2013 o'i gymharu ag 876 ar ddiwedd mis Medi 2012. Roedd hwn yn faes y nodwyd yn yr arolygiad diwethaf bod angen ei adolygu. Gwnaed ymdrechion i asesu statws yr achosion hyn ac mae rhai ohonynt wedi bod yn agored ar gyfer 'monitro' ers peth amser. Mae adolygiad o lwyth gwaith y tîm plant ag anabledau (236 achos plant mewn angen) wedi arwain at leihau rhywfaint ar nifer yr achosion amddiffyn plant sydd gan y tîm hwnnw. Roedd gwaith ar y gweill ar adeg yr arolygiad i adolygu achosion plant mewn angen yn y timau plant cymunedol. Ychydig o dystiolaeth a welwyd bod yr achosion hyn yn cael eu hadolygu'n systematig, ond hyd nes y gall rheolwyr timau sefydlu systemau i fonitro achosion yn fwy effeithiol mae'r niferoedd yn annhebygol o ostwng.
- 48 Mae'r gwaith cynllunio ac adolygu gofal yn cael ei gynnal yn fwy prydlon, a gwelwyd tystiolaeth y rhoddir cymorth o ansawdd gwell gan grŵp staff mwy profiadol a sefydlog yn y tîm plant sy'n derbyn gofal. Roedd 457 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghastell-nedd Port Talbot ym mis Hydref 2013 o'i gymharu â 501 ym mis Hydref 2012. Bu gostyngiad graddol trwy gydol y flwyddyn gyda 58 o blant yn destun achosion llys ar adeg yr arolygiad. Mae gan y tîm plant sy'n derbyn gofal 187 o achosion, pob un â chynllun sefydlogrwydd i aros yn blant sy'n derbyn gofal yn y tymor hir. Mae gweddill yr achosion naill ai yn nwylo'r tîm plant cymunedol neu'r tîm plant ag anabled. Nid yw'r ffeiliau achos yn dangos gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc ond roedd gweithwyr cymdeithasol yn gallu trafod yn drylwyr y gwaith a oedd yn cael ei gynnal yn yr achosion a adolygwyd.

Canran y lleoliadau cyntaf a ddechreuodd gyda chynllun gofal wedi'i sefydlu:

- Chwarter 1af 2012/13 54%
- Chwarter 1af 2013/14 100%

Arhosodd perfformiad yn sefydlog am yr 2il chwarter.

Canran y plant sy'n derbyn gofal ac sydd â chynllun sefydlogrwydd ar adeg yr ail adolygiad:

- Chwarter 1af 2012/13 80%

- Chwarter 1af 2013/14 86%

Gwellodd y perfformiad i 93% ar gyfer yr 2il chwarter.

49 Mae angen gwelliant sylweddol o hyd o ran cynllunio gofal. Cyflwynwyd hyfforddiant ond ni fu amser i'r staff roi'r gwersi a ddysgwyd ar waith cyn yr arolygiad. Roedd gweithwyr yn ymddangos yn ddryslyd ynglŷn â'r hyn y mae cynllunio gofal yn ei olygu ac mae'n anodd gweld sut y mae asesiadau craidd yn llywio'r cynlluniau. Nid yw'n amlwg bod plant, pobl ifanc a'u gofalcwyr yn cyfrannu at y cynlluniau. Cyflwynwyd templedi diwygiedig, ac mae potensial i wella'n sylweddol y dull o gofnodi ac olrhain datblygiad y cynlluniau. Roedd ansawdd y broses o gofnodi ymweliadau statudol yn anghyson iawn ac yn aml 'gwelwyd y plentyn' oedd yr unig gyfeiriad at y plant neu'r person ifanc. Ychydig o gyfeiriad oedd at ddatblygiad y plentyn a fawr ddim adborth gan ofalcwyr.

Canran yr ymweliadau statudol a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni a ragnodwyd:

- Chwarter 1af 2012/13 50%
- Chwarter 1af 2013/14 80%

Gwellodd y perfformiad i 83% ar gyfer yr 2il chwarter.

Canran yr adolygiadau statudol a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni a ragnodwyd:

- Chwarter 1af 2012/13 50%
- Chwarter 1af 2013/14 91%

Gwellodd y perfformiad i 93% yn yr 2il chwarter.

50 Er bod prydlondeb wedi gwella'n fawr o ganlyniad i gael staff ychwanegol yn nhîm y swyddogion adolygu annibynnol, mae ansawdd yr adolygiadau'n dal yn anghyson. Anaml y caiff plant a phobl ifanc eu gweld gan swyddog adolygu annibynnol cyn eu hadolygiadau ond roedd mwy o dystiolaeth eu bod yn bresennol. Nid yw cynlluniau gofal yn cael eu diweddarau'n systematig yn dilyn adolygiadau ond mae'r awdurdod yn gwneud trefniadau i swyddogion adolygu annibynnol gyflawni'r dasg hon.

Trefniadau i amddiffyn pobl agored i niwed

51 Roedd ymarfer amddiffyn plant yn un o'r meysydd y nodwyd yn yr arolygiad diwethaf bod angen rhoi blaenoriaeth i'w wella. Nid oedd gweithwyr cymdeithasol yn dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru Gyfan gan nad oeddent yn rhan annatod o'r model systemau a fabwysiadwyd gan Gastell-nedd Port Talbot. Yn y deuddeg mis diwethaf mae gweithwyr cymdeithasol wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant sydd wedi arwain at well ymarfer ac at gwblhau'r

broses yn fwy prydlon. Roedd yr arolygwyr yn falch nad oedd gweithwyr cymdeithasol erbyn hyn yn defnyddio contractau disgwyliadau gyda rhieni y tu allan i achosion amddiffyn plant ffurfiol neu achosion llys. Cadarnhaodd partneriaid fod gweithwyr cymdeithasol yn fwy hyderus wrth gynnal ymchwiliadau a bod y defnydd o gytundebau gyda theuluoedd yn glir.

52 Mae angen gwneud rhagor er mwyn i weithwyr cymdeithasol ddatblygu sgiliau yn y canlynol:-

- Cynnal ymchwiliadau adran 47;
- Asesu risg;
- Ymgysylltu â theuluoedd er mwyn deall achosion pryder;
- Cynllunio ym maes amddiffyn plant;
- Gwaith grŵp craidd.

53 Mae prosesau amddiffyn plant yn cael eu cynnal yn fwy prydlon yn sgil gweithlu ychwanegol a gwell cymorth busnes. Mae ansawdd cofnodion cynadleddau achos amddiffyn plant yn dal yn anghyson iawn. Cyflwynwyd fformat diwygiedig ym mis Hydref ond ni fu digon o amser i hwn gael effaith ar adeg yr arolygiad. Roedd yn ymddangos bod gan gadeiryddion cynadleddau achos a gweithwyr cymdeithasol ddealltwriaeth wahanol am y trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau amddiffyn plant. Nid oedd y cynlluniau hynny a welwyd yn nodi'n glir yr achosion pryder a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain. Roedd cofnodion grwpiau craidd yn aml yn cynnwys y wybodaeth a gofnodwyd yn sgil ymweliadau statudol. Mewn rhai achosion lle y cofnodwyd ar y ffeil y bu cynnydd pendant mewn pryderon, nid oedd yn bosibl gweld sut yr oedd gweithwyr cymdeithasol yn ymgysylltu â rhieni er mwyn nodi'r effaith ar y plant a sut y gellid lleihau'r effaith honno. Roedd yn ymddangos bod rhai gweithwyr yn ymddiried llawer yn y rhieni i roi blaenoriaeth i anghenion eu plant, ond yn eu cosbi os nad oeddent yn gwneud hynny. Mae angen gwneud mwy i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i ddatblygu sgiliau i herio'n adeiladol ac i fabwysiadu dull 'ansicrwydd parchus' wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth. Yn gyffredinol, roedd trefniadau y tu allan i oriau arferol yn gweithio'n dda ond mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch staff cyflenwi pe digwydd i un o'r gweithwyr fod ar wyliau blynyddol neu'n sâl. Yn ogystal, er ei bod yn bosibl defnyddio gweithiwr ychwanegol pe byddai galwad yn dod tra bod gweithiwr allan ar alwad, rhaid gadael neges ar wasanaeth ateb ac efallai na roddir ymateb i'r neges hon tan i'r gweithiwr fod ar gael. Dylid adolygu'r trefniant hwn i sicrhau nad oes oedi cyn ymateb pe byddai angen critigol am gymorth.

Canran y cynadleddau achos a gynhaliwyd o fewn 15 diwrnod i drafodaeth strategaeth:-

- Chwarter 1af 2012/13 52%
- Chwarter 1af 2013/14 100%

Dirywiodd y perfformiad ychydig yn yr 2il chwarter.

Canran y grwpiau craidd a gynhaliwyd o fewn 10 diwrnod i gynhadledd achos gychwynnol:-

- Chwarter 1af 2012/13 76%
- 2il chwarter 2013/14 96%

Dirywiodd y perfformiad ychydig yn yr 2il chwarter.

Meysydd sydd wedi gwella

- Gwell cefnogaeth gorfforaethol ar gyfer gwella'r gwasanaethau i blant;
- Gwell arweinyddiaeth a chymorth rheoli i'r staff;
- Gwaith da o ran adolygu gwasanaethau ataliol a datblygu model newydd ar gyfer eu cyflwyno;
- Llwyddo i recriwtio i swyddi gwag prif swyddogion a gweithwyr cymdeithasol;
- Gweithlu mwy sefydlog a llai o absenoldeb salwch;
- Trefniadau mynediad mwy cyson;
- Perfformiad llawer mwy prydlon ar draws y gwasanaethau i blant;
- Gwell systemau ar gyfer casglu gwybodaeth rheoli perfformiad;
- Ysbryd gwell ymhlith y staff a gwell ymateb i bryderon am fwlio ac arferion gwaith gormesol;
- Gwelliant yn ansawdd y cymorth i rai plant sy'n derbyn gofal.

Blaenoriaethau ar gyfer gwelliant

Nodwyd bod angen gwella'r meysydd canlynol:

Rhoi cyfeiriad

- Bydd angen cynnal cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth o hyd i barhau i wella'r gwasanaethau cymdeithasol i blant.
- Dylid diwygio'r cynllun Gwelliant Strategol i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau fel y gellir asesu datblygiadau'n effeithiol, a nodi'n haws y meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

Cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol

- Dylid parhau i ganolbwyntio ar weithredu strategaeth y gweithlu, gan gynnwys:
 - a) Cadw staff a sicrhau bod y trefniadau i weithwyr asiantaeth yn fwy sefydlog.
 - b) Datblygu pecyn sefydlu sydd hefyd ar gael i weithwyr asiantaeth ac sy'n cynnwys disgwyliadau'r rheolwyr o ran cymhwysedd staff ar ddiwedd y cyfnod prawf.
 - c) Datblygu polisïau a gweithdrefnau ar-lein.
 - ch) Ystyried yr effaith y byddai unrhyw leihad mewn cymorth adnoddau dynol yn ei chael ar yr agenda ar gyfer gwella.
 - d) Dylai proffiliau trosiant a phrofiad staff fod yn gyson o ran cynnwys staff asiantaeth.
 - dd) Dylid egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau dirprwy reolwyr tîm a gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol mewn cysylltiad â goruchwyllo staff, gan ymgynghori a chyfathrebu â phob aelod o'r staff.
 - e) Mae angen cynnwys asiantaethau partner yn fwy effeithiol yn y gwaith o hybu hyfforddiant amlasiantaethol.
 - f) Dylid cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddysgu a datblygu, yn arbennig mewn cysylltiad ag amddiffyn plant a chynllunio gofal, a dylid eu cynnwys mewn sesiynau goruchwyliaeth a chyfarfodydd tîm.
 - ff) Parhau i ganolbwyntio ar fagu hyder staff ym maes rheoli bwlio ac arferion gwaith gormesol.
 - g) Dylid datblygu dull cyson o drefnu staff cyflenwi pan fo rhywun yn absennol, yn arbennig ar gyfer ymweliadau statudol.

Rheoli perfformiad

- Dylid hysbysu mewn modd cyson am y data a gesglir ynglŷn â mynediad at wasanaethau i blant;
- Dylid gwella'r dull o ddadansoddi data perfformiad fel bod goblygiadau newidiadau yn amlwg. Dylid amlygu'r meysydd y mae angen eu datblygu yn ogystal â'r gwelliannau;
- Dylid rhoi blaenoriaeth i'r cynlluniau i weithredu'r fframwaith sicrhau ansawdd, a dylid defnyddio canlyniadau cwynion i lywio ymarfer;
- Mae angen rhagor o waith i gyfnerthu'r hyn a gyflawnwyd i gofnodi gwybodaeth a phenderfyniadau'n well ar gynlluniau, cofnodion cynadleddau achos a gwaith grŵp craidd.

Llunio gwasanaethau

- Dylai'r protocol Cyfranogiad, Ymgysylltu ac Eiriolaeth gael ei adolygu i sicrhau bod y cynigion yn ymarferol;

- Dylid hysbysu pob gweithiwr cymdeithasol a rheolwr am ddatblygiad gwasanaethau ataliol y Teulu'n Flaenaf;
- Dylai'r gwaith i gysoni trothwyon sy'n cael ei gwblhau gan Bartneriaeth y Teulu'n Flaenaf gael ei ddiffinio a'i gyfathrebu'n glir;
- Dylai proffil poblogaeth y plant sy'n derbyn gofal nodi am faint o amser y mae plentyn wedi bod yn un sy'n derbyn gofal ac a yw wedi'i leoli y tu allan i'r sir.

Asesu a rheoli gofal

- Mae angen rhagor o ganllawiau ar weithwyr cymdeithasol ynglŷn ag ystyried risg a sut y mae gwybodaeth a gesglir yn cael ei dilysu a'i chofnodi;
- Ni ddylid parhau â'r arfer o gynnal asesiadau bwrdd gwaith;
- Dylid sefydlu trefniadau ar unwaith i archwilio cysylltiadau nad ydynt yn mynd ymlaen i fod yn atgyfeiriadau, ac atgyfeiriadau nad ydynt yn arwain at weithredu yn dilyn asesiad cychwynnol;
- Dylai trefniadau ar gyfer trosglwyddo achosion rhwng timau, yn arbennig mewn cysylltiad â'r rhai allan o'r tîm derbyn, gael eu cytuno, eu cyfathrebu i bob aelod o staff a'u gweithredu cyn gynted â phosibl;
- Dylid parhau i roi pwyslais cryf ar waith i hybu cysondeb yn ansawdd yr asesiadau;
- Mae angen gwella ansawdd y gwaith cynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Mae angen adolygu achosion 'plant mewn angen' ymhellach i resymoli'r galw a sicrhau y darperir cymorth gwaith cymdeithasol ar lefel briodol;
- Mae angen mwy o ganllawiau ar weithwyr cymdeithasol ynghylch diben ymweliadau statudol ar gyfer amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal, a sut i'w cofnodi;
- Dylid parhau i roi blaenoriaeth i'r trefniadau i adolygu cynlluniau sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal, yn arbennig y rhai sydd yn nwylo'r timau plant cymunedol.

Trefniadau i amddiffyn pobl agored i niwed

- Mae angen rhagor o gymorth ar weithwyr cymdeithasol i ddatblygu sgiliau gwell yn y meysydd canlynol:

- i) Cynnal ymchwiliadau Adran 47;
 - ii) Datblygu ac adolygu cynlluniau amddiffyn plant;
 - iii) Gwaith grŵp craidd.
- Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r gwasanaeth 'y tu allan i oriau arferol' i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu ymateb cyson ac amserol.